# SEFYDLIADAU SY'N BARTNERIAID



## 1. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. Codi ymwybyddiaeth am faterion bioamrywiaeth lleol ac am Natur Gwynedd ymysg staff pob sefydliad sy'n bartner.
2. Cael staff o wahanol adrannau yn y sefydliadau sy'n bartneriaid i gymryd rhan yn natblygiad a gweithrediad Natur Gwynedd
3. Cynnal a gwella bioamrywiaeth ar dir sydd ym meddiant / a reolir gan sefydliadau sy'n bartneriaid.

## 2. CAMAU ARFAETHEDIG

| **Côd** | **Gweithred** | **Partneriaid**[1] |
|---|---|---|
| 1 | Darparu hyfforddiant penodol ar faterion bioamrywiaeth(gan gynnwys materion rhywogaethau wedi eu gwarhodaeth) i adrannau allweddol o fewn y sefydliadau sy'n bartneriaid, gan gynnwys Priffyrdd CG, Rheoli Adeiladu CG, Rheolaeth datblygu,Traeniad AA, CCth<br>TARGED: cynhyrchu amserlen hyfforddiant yn ystod 2004 | **CG**, AA, CCGC, partneriaid perthnasol |
| 2 | Sicrhau bod pob adran o'r sefydliadau sy'n bartneriaid (yn cynnwys CG, AA, CCth) yn ymwybodol o Natur Gwynedd a'i amcanion.<br>TARGED/AMSERLEN: rhoi cyhoeddusrwydd i lansiad Natur Gwynedd a manylion amdano trwy ddefnyddio systemau e-bost mewnol, newyddlen fewnol ayyb. Erbyn 2005 | **CG**, AA, CCGC, partneriaid perthnasol |
| 3 | Codi ymwybyddiaeth o fewn Cyngor Gwynedd o bwysigrwydd cyfraniad sefydliadau statudol ac anstatudol, a sicrhau bod manylion amdanynt a'u cyfeiriadau ar gael trwy'r system SGD.<br>TARGED/AMSERLEN: I'w osod, Cyfredol | **CG** |
| 4 | Dosbarthu taflenni, posteri a deunydd dehongli i sefydliadau eraill sydd yn bartneriaid er mwyn eu harddangos mewn digwyddiadau.<br>TARGED/ AMSERLEN: Ar y gweill | **CG**, partneriaid perthnasol |
| 5 | Annog rheolwyr pob tir sydd ym mherchnogaeth y sefydliadau sy'n bartneriaid i gefnogi bioamrywiaeth trwy ddarparu cyngor ac arweiniad (mewnol neu o'r tu allan) i'r holl adrannau sydd yn ymwneud â rheoli tir.<br>TARGED/AMSERLEN: I'w osod, Cyfredol | **CG**, AA, YG, Dwr Cymru, ADC |

## 3. PARTNERIAID A CHYFLEOEDD

### 3.1 Prif bartner i arwain y CGP

Cyngor Gwynedd (CG)

### 3.2 Partneriaid allweddol

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AA)

Dŵr Cymru ( DC)

Comisiown Coedwigaeth (CCth)

Awdurdod Datblygu Cymru (ADC)

## 4. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, SGD: System Gwybodaeth Daearyddol, SGD: Susten gwybodaeth Ddaearyddol

Fersiwn 1, 2004

---

[1] Mae'r prif bartner ar gyfer y gweithrediad hwn ync ael ei ddangos mewn ysgrifen ddu.gweler adran7.2 am eglurhad o'r byrfodau